# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 1 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Mercher, 7 Chwefror 2018

Amser: 08.53 - 13.02

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4532

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Lynne Neagle AC (Cadeirydd)<br>Michelle Brown AC<br>Hefin David AC<br>Llyr Gruffydd AC<br>Julie Morgan AC<br>Mark Reckless AC |
| Tystion: | Dr Jane Fenton-May, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol<br>Dr Rob Morgan, Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol<br>John Palmer, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf<br>Melanie Wilkey, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Rosemarie Whittle, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro<br>Angela Hopkins, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg<br>Nick Wood, Aneurin Bevan University Heath Board<br>Warren Lloyd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |

| | |
|---|---|
| | Liz Carroll, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda<br><br>Dr Peter Gore Rees, Coleg Brenhinol y Seiciatryddion<br><br>Alberto Salmoiraghi, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr<br><br>Rhiannon Jones, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys<br><br>Carole Bell, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru<br><br>Carl Shortland, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru<br><br>Robert Colgate, Welsh Health Specialised Service Committee |
| Staff y Pwyllgor: | Llinos Madeley (Clerc)<br><br>Sarah Bartlett (Dirprwy Glerc) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau, derbyniwyd ymddiheuriadau gan Darren Millar a John Griffiths, nid oedd unrhyw eilyddion.

## 2 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc – Sesiwn dystiolaeth 17

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Goleg Brenhinol y Meddygon Teulu.

## 3 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc – Sesiwn dystiolaeth 18

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd Lleol.

Cytunasant i ddarparu nodyn yn esbonio pam fod y canran gwariant cenedlaethol ar CAMHS o gymharu â gwasanaethau iechyd meddwl oedolion a ddyfynnwyd yn y sesiwn yn gyfystyr â rhyw 12.7%, sy'n sylweddol uwch na'r canran gwariant unigol a ddyfynnwyd gan bob bwrdd iechyd mewn tystiolaeth ysgrifenedig a llafar (sy'n amrywio o 5.1% – 8.5%).

## 4 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - Sesiwn dystiolaeth 19

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan gynrychiolwyr o Fyrddau Iechyd Lleol.

Cytunodd Bwrdd Iechyd Addysgu Powys i ddarparu nodyn ar y nifer o blant a phobl ifanc sy'n aros ar hyn o bryd am asesiad niwroddatblygiadol, a'r cyfnod aros y maent yn ei wynebu.

## 5 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc - Sesiwn dystiolaeth 20

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru.

## 6 Papurau i'w nodi

6.1 Nodwyd y papurau. Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg i ofyn am yr wybodaeth ddiweddaraf ar athrawon cyflenwi.

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Gweinidog dros Blant a Gofal Cymdeithasol - gwybodaeth bellach yn dilyn y cyfarfod ar 22 Tachwedd

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Bagloriaeth Cymru

Llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg gan Undeb Addysg Genedlaethol Cymru, y Llais yr Undeb ac UCAC

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg - Manylion y dyddiadau gwirio allweddol cyn rhyddhau'r cwricwlwm newydd ym mis Ebrill 2019

Gwybodaeth ychwanegol gan gynrychiolwyr o dimau dyletswydd brys y GIG ac ymarferwyr gofal argyfwng yn dilyn y cyfarfod ar 10 Ionawr

E-bost at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg gan aelodau Chwarae Teg i Athrawon Cyflenwi - gan gynnwys eu llythyr at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ynghylch gwerslyfrau cyfrwng Cymraeg ar gyfer cymwysterau.

## 7 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

7.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 8 Ymchwiliad i Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc – trafod y dystiolaeth

8.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a glywyd yn ystod y cyfarfod.